


## Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Rhifyn 8

| Darn                      | Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:   |
|---------------------------|--|
| Beth ydych chi'n dathlu?  | <b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i drafod cymarebau</li><li>mesur - cyfle i addasu rysáit ar gyfer mwy o bobl</li></ul> <b>Celf / Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu / Dylunio, Crefft a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i drafod dyluniad ac i wella golwg poster</li><li>trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau</li><li>cyfle i weithio allan sut i baratoi rysáit a'i wneud</li></ul> <b>Hanes</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i drafod hanes Guto Ffowc</li></ul>  |
| Hwyl dros y Nadolig       | <b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau</li></ul>   |
| Pen-blwydd hapus          | <b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>chwilio am leoedd ar fap o'r byd</li><li>dysgu am arferion mewn gwledydd eraill</li></ul> <b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i gyllidebu ac i weithio o fewn cyfyngiadau cyllid</li></ul> <b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun</li></ul>   |
| Dathlu ar draws y byd (1) | <b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap o'r byd ac i ddysgu am arferion mewn rhannau eraill o'r byd</li></ul>  |
| Rasio                     | <b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i ddefnyddio map Ordnans wrth gynllunio cwrs rasio yn yr ardal ac wrth fesur pellter</li><li>cyfle i wneud map i ddangos y cwrs rasio</li></ul> <b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i drosi o gilometrau i filltiroedd ac i'r gwrthwyneb</li></ul> <b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau</li></ul> <b>Hanes</b> <ul style="list-style-type: none"><li>cyfle i ddysgu am gefndir Ras Nos Galan a Guto Nyth Brân</li></ul> |



|                                  |   |
|----------------------------------|---|
| <b>Beth sy'n digwydd?</b>        | <b>Hanes</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyfle i ddysgu am fudo i Ogledd America yn 1620 ac am hanes Diolchgarwch</li><li>• Addysg grefyddol</li><li>• cyfle i ymchwilio i'r cysyniad o Ddiolchgarwch</li></ul> <b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau – cyflwyniad PowerPoint</li><li>• chwilio am wybodaeth</li></ul> <b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyfle i chwilio am arferion / traddodiadau diolchgarwch ar draws y byd</li></ul> |
| <b>Beic newydd</b>               | <b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyfle i weithio gydag arian, canrannau ac i gyllidebu</li></ul>   |
| <b>Dathlu ar draws y byd (2)</b> | <b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap o'r byd ac i ddysgu am arferion mewn rhannau eraill o'r byd</li></ul>   |
| <b>Dau'n dathlu</b>              | <b>Addysg grefyddol</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• dysgu am / ymchwilio i Diwali a Hanukkah yn ogystal â dathliadau mewn crefyddau eraill; cyfle hefyd i drafod dathliadau personol</li></ul>  |
| <b>Parti ... parti ... parti</b> | <b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap</li></ul> <b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyfle i drin a thrafod arian ac i weithio o fewn cyfyngiadau cyllid</li></ul>   |
| <b>Dydd gwisgo coed</b>          | <b>Daearyddiaeth / Gwyddoniaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• ystyried problemau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo</li></ul>  |

## Y cwricwlwm Cymreig

Mae cyfle i ddysgu am Guto Nyth Brân, Ras Nos Galan a'r Fari Lwyd yn y rhifyn hwn. Mae cyfleoedd hefyd i chwilio am wybodaeth am dathliadau Cymraeg a Chymreig eraill.

Yn ogystal, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

## Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

### **Datblygu cyfathrebu**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

### **Datblygu TGCh**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

### **Datblygu rhif**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

[Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7]

